Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS A PHRIF GWNSTABL HEDDLU DYFED-POWYS**

**ARCHWILIAD O GYFRIFON 2017/18**

**HYSBYSIR DRWY HYN O DAN** Adrannau 29, 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

1. O 11 Mehefin 2018 tan 6 Gorffennaf 2018 yn gynwysedig, rhwng 10.00y.b. a 4.00y.h. o ddydd Llun i ddydd Gwener, gall unrhyw un sydd â diddordeb, ar ôl gwneud cais i'r Pennaeth Staff, ddarllen a gwneud copïau o gyfrifon y sefydliadau a enwyd uchod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, ynghyd â phob llyfr, gweithred, cytundeb, bil, taleb a derbynneb ym Mhencadlys yr Heddlu.

2. Am 9.00y.b. ar 11 Gorffennaf 2018, neu ar ôl hynny, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, Mr Huw Vaughan Thomas, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, ar gais unrhyw etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hi, yn rhoi cyfle i'w holi am y cyfrifon, a gall unrhyw etholwr felly neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd gyfarfod â'r Archwilydd yn y Pencadlys Heddlu a enwyd a chyflwyno gwrthwynebiad i unrhyw ran o'r cyfrifon.

3. Nid yw'n bosibl gwrthwynebu ar ran yr etholwr os nad yw'r Archwilydd Cyffredinol, cyn hynny, wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r gwrthwynebiad arfaethedig, ac ar ba sail y gwneir hynny. Dylid anfon copi o'r hysbysiad i'r rhai sydd wedi arwyddo isod yn y cyfeiriad a roddwyd.

**Dyddiedig yr 24ain dydd hwn o Fai 2018**

**Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

**Mark Collins, Prif Gwnstabl**

**Pencadlys yr Heddlu,**
**Llangynnwr, Caerfyrddin SA31 2PF**